



Tystysgrif Addysg i Raddedigion yng Nghymru

I fod yn athro, bydd angen i chi gwblhau eich TAR gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC). Bydd ein TAR yn eich gwneud yn gymwys i weithio ar lefel ysgol gynradd neu ar lefel ysgol uwchradd ac mae'n canolbwyntio ar y cwricwlwm yng Nghymru. Gallwch astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu gyfuniad o'r ddwy. Mae'r cwrs yn cael ei gynnal ar-lein, gan gynnwys seminarau byw ar-lein, gyda chymorth wyneb yn wyneb wedi'i ddarparu yn yr ysgol. Cewch brofiad o addysgu mewn dwy ysgol wahanol yng Nghymru (o leiaf 120 diwrnod dros y ddwy flynedd). Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr a ardystir gan ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn cael eu hariannu'n llawn (llwybr cyflogedig); neu, gallwch ariannu eich hunan ac mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael benthyciad myfyrwyr a/neu grant cynhaliath (llwybr rhan-amser).

Prif nodweddion y cwrs

- Cymhwyso i addysgu ar lefel ysgol gynradd neu addysgu un o ddewis o bynciau ar lefel ysgol uwchradd.
- Datblygu o roi cymorth yn yr ystafell ddosbarth i gynllunio ac addysgu amrywiaeth o wersi ar eich pen eich hun.
- Cysylltu damcaniaethau ag ymarfer, a datblygu eich gwybodaeth bynciol ar yr un pryd.
- Dewis o ddau lwybr, sef llwybr cyflogedig neu lwybr rhan-amser, gan ddewis yr un mwyaf addas ar gyfer eich amgylchiadau personol.
- Dysgu yn Gymraeg neu'n Saesneg – chi biau'r dewis.

Manylion y cwrs

Mae'r TAR newydd hon wedi'i dylunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 ac mae'n cydweddu â'r agenda diwygio ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon.

Gallwch ddilyn un o ddau lwybr: y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser. Mae'r ddau lwybr yn cynnwys cyfuniad o sesiynau ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb â mentoriaid a thiwtorïaidd ymarfer.

Llwybr cyflogedig

Os ydych eisoed yn gweithio mewn rôl nad yw'n rôl addysgu neu fel cynorthwydd addysgu mewn ysgol wladol, gallwch wneud cais am ardystiad gan eich ysgol. Byddwch yn gweithio yn yr ysgol ar sail amser llawn ac yn astudio o gwmpas eich dyletswyddau presennol. Rhaid i'ch cais gael ei ardystio gan eich ysgol, gan y bydd yn talu eich cyflog. Caiff ffioedd y cwrs eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Os nad ydych yn gweithio mewn ysgol wladol ar hyn o bryd, mae'n dal i fod yn bosibl i chi

Tystysgrif

Cod y cwrs
K36

Credydau
120

Hyd y cwrs
2 flynedd
Darllenwch fwy am
[hyd y cwrs](#)

Dull astudio
Dysgu o bell
Dysgwch fwy yn [Pam dewis Y Brifysgol Agored?](#)

Cost y cwrs
Gweler [Ffioedd a chyllid](#)

Gofynion mynediad
Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn
[gofynion mynediad](#)

wneud cais am y llwybr cyflogedig. Bydd angen ysgol wladol sy'n fodlon eich ardystio, a gallwn ni eich helpu i ddod o hyd i ysgol o'r fath.

Llwybr rhan-amser

Os nad yw'r llwybr cyflogedig yn addas i chi, ystyriwch yr opsiwn rhan-amser. Gallwch astudio ar gyfer eich TAR o gwmpas eich swydd bresennol neu'ch ymrwymadau bywyd eraill. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyrwyr a grantiau cynhaliath rhan-amser i'ch helpu â chostau'r llwybr hwn, y byddwch yn ei ariannu eich hunan. Mae'r llwybr hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, gan ei bod yn bosibl i chi ennill profiad addysgu ymarferol rhan-amser mewn ysgol ochr yn ochr â'ch ymrwymadau presennol. Yn ystod y ddwy flynedd, byddwch yn treulio 120 diwrnod mewn lleoliadau ysgolion; 60 y flwyddyn. Yn yr ail flwyddyn, rhaid cwblhau 30 diwrnod o'ch lleoliadau ysgolion mewn un bloc di-dor.

Mae'r ddau lwybr yn cynnwys tri modiwl. Mae'r ddau fodiwl cyntaf yn 30 credyd yr un ar Lefel 6 (israddedig) ac mae'r modiwl olaf yn 60 credyd ar Lefel 7 (ôl-raddedig).

Mae pob modiwl yn orfodol, a byddwch yn eu hastudio yn y drefn benodedig.

Er mwyn ennill y cymhwyster hwn, bydd angen **120 credyd** arnoch, fel a ganlyn:

Modiwlau'r llwybr cyflogedig	Credydau	Dyddiad dechrau nesaf
TAR 1 (EE304)	30	03 Hydref 2020
TAR 2 (EE305)	30	06 Mawrth 2020
TAR 3 (EE806)	60	04 Medi 2021

Neu

Modiwlau'r llwybr rhan-amser	Credydau	Dyddiad dechrau nesaf
TAR 1 (EEXP304)	30	03 Hydref 2020
TAR 2 (EEXP305)	30	06 Mawrth 2021
TAR 3 (EEXP806)	60	04 Medi 2021

Mae pob modiwl yn cynnwys astudio academiaidd drwy seminarau ar-lein a arweinir gan eich tiwtor cwricwlwm; cyfnod o brofiad mewn ysgol; a chyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys ymatebion i dasgau academiaidd ac adroddiadau yn seiliedig ar eich profiad mewn ysgol. O ddechrau eich astudiaethau, byddwch yn ymgysylltu â'r Gymraeg mewn cyd-destun ysgol, gan adeiladu ar eich lefel o allu ar ddechrau'r TAR.

Byddwch yn symud o ymgyfarwyddo rhagarweiniol yn *TAR 1* i atgyfnerthu eich dysgu yn *TAR 2* i ymarfer addysgu ymreolus yn *TAR 3*. Wrth i chi symud drwy'r modiwlau, byd eich dealltwriaeth o'r damcaniaethau a'r cysyniadau'n datblygu. Bydd eich profiad ymarferol a'ch asesiadau hefyd yn eich paratoi ar gyfer eich modiwl nesaf.

Bydd pob un o'r modiwlau yn cael eu haddysgu drwy gyfres o linyddau sy'n canolbwyntio ar ymarfer. Byddwch yn meithrin sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Cwricwlwm
- Deall dysgwyr
- Cynllunio ar gyfer dysgu
- Addysgeg
- Asesu
- Ymarfer proffesiynol

Caiff damcaniaethau academaidd eu cyfuno â phrofiad sylweddol, wedi'u cefnogi mewn ysgolion. Bydd myfyrwyr cyflogedig yn cael profiad ymarferol ac yn astudio ar yr un pryd. Bydd myfyrwyr rhan-amser yn cael profiad ymarferol ar ôl cwblhau eu hastudiaethau academaidd ym mhob modiwl. Bydd lleoliadau ysgolion ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg.

Byddwch yn gweithio gyda'ch mentor ac aelodau o staff yr ysgol i gynyddu eich cyfrifoldebau addysgu. Byddwch yn symud o roi cymorth yn yr ystafell ddosbarth, a chynllunio ac addysgu gwersi unigol yn *TAR 1*, i gynllunio ac addysgu cyfres o wersi yn *TAR 2*, i fod yn gyfrifol am gynllunio, paratoi adnoddau ac addysgu amrywiaeth o wersi ar eich pen eich hun yn *TAR 3*.

P'un a ydych yn dilyn y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser, byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil ystafell ddosbarth unigol yn *TAR 3*. Bydd angen i fyfyrwyr ar y llwybr rhan-amser gwblhau 30 diwrnod llawn o brofiad addysgu (pum diwrnod yr wythnos am chwe wythnos ysgol yn olynol).

Bydd mentoriaid yn eich cefnogi drwy gydol eich profiad mewn ysgol. Byddant yn cyfryngu ac yn hwyluso tasgau rheolaidd yn yr ysgol, a fydd yn bwydo i mewn i'ch astudiaethau.

Deilliannau dysgu, addysgu ac asesu

Disgrifir deilliannau dysgu'r cymhwyster hwn mewn pedwar maes:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth.
- Sgiliau gwybyddol.
- Sgiliau allweddol.
- Sgiliau ymarferol a phroffesiynol.

[Darllenwch wybodaeth fanylach am y deilliannau dysgu.](#)

Ar ôl cwblhau'r cwrs

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, byddwn yn dyfarnu ein Tystysgrif Addysg i Raddedigion i chi. Bydd gennych hawl i ddefnyddio'r llythrennau TAR ar ôl eich enw. Byddwn hefyd yn argymhell y dylai'r corff proffesiynol, Cyngor y Gweithlu Addysg, roi Statws Athro Cymwysedig (SAC) i chi.

Cewch eich gwahodd i seremoni raddio.

Rheoliadau

Fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, dylech fod yn ymwybodol o gynnwys y rheoliadau sy'n benodol i gymwysterau isod a'r rheoliadau academaidd sydd ar gael ar ein gwefan [Polisiau a Rheoliadau Myfyrwyr](#).

- [Tystysgrif Addysg i Raddedigion](#)

Gofynion mynediad

Ar gyfer y llwybr rhan-amser, rhaid bod gennych gyfeiriad cartref yng Nghymru. Ar gyfer y llwybr cyflogedig, rhaid bod gennych gyfeiriad cartref yng Nghymru neu Loegr a rhaid i chi allu cwblhau eich profiad addysgu mewn dwy ysgol wladol yng Nghymru.

Bydd angen i chi feddu ar y canlynol:

- Gradd yn y DU (neu gymhwyster cyfatebol). Os ydych am fod yn athro ysgol uwchradd, rhaid bod eich gradd yn cynnwys cyfran sylweddol o'r pwnc rydych am ei addysgu.
- Gradd B neu uwch mewn TGAU Mathemateg neu Fathemateg–rhifedd (neu gymhwyster cyfatebol).

- Gradd B neu uwch mewn TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith (neu gymhwyster cyfatebol). Neu, Gradd B neu uwch mewn TGAU Llenyddiaeth Gymraeg neu Lenyddiaeth Saesneg (neu gymhwyster cyfatebol), a Gradd C neu uwch mewn Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith (neu gymhwyster cyfatebol).
- Gradd C neu uwch mewn TGAU Gwyddoniaeth (neu gymhwyster cyfatebol) os ydych am fod yn athro ysgol gynradd.
- Oherwydd yr amgylchiadau annisgwyl presennol, efallai y derbynnir Gradd C (TGAU neu gyfwerth) mewn Mathemateg neu Saesneg Iaith ar gyfer mynediad Hydref 2020 yn unig. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflawni'r Radd B hanfodol (TGAU neu gyfwerth) yn ystod y rhaglen neu bydd gofyn iddynt roi'r gorau i'r cwrs.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd ysgol/gyda phobl ifanc os ydych am ddilyn y llwybr cyflogedig. Bydd angen i chi fod yn barod i gwblhau wythnos wirfoddol mewn ysgol cyn dechrau'r cwrs os ydych am astudio'r llwybr rhan-amser.

Yn ogystal, bydd angen i chi ddangos y canlynol:

- Y ddawn, y gallu a'r gwydnwch i gyflawni'r deilliannau SAC gofynnol erbyn diwedd eich rhaglen TAR.
- Priodweddau personol a deallusol priodol i fod yn ymarferydd rhagorol.
- Y gallu i ddarllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ac yn gywir yn Saesneg a/neu Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Sgiliau gweithredol personol mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn cyd-destun addysgu a dysgu proffesiynol. Caiff y rhain eu gwerthuso drwy asesiad.

Yn ystod y broses o wneud cais, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i ddangos nad ydych wedi eich gwahardd rhag addysgu na gweithio gyda dysgwyr, na'ch bod wedi eich gwahardd rhag gwneud hynny yn y gorffennol, ac nad oes gennych ychwaith gefndir troseddol a allai eich atal rhag gweithio gyda phlant neu bobl agored i niwed. Mae diogelu yn ofyniad cyfreithiol.
- Cadarnhau eich bod yn deall y bydd angen i chi gwblhau cyfnod estynedig o amser mewn ail ysgol.

Os byddwch yn gwneud cais am y llwybr cyflogedig, rhaid bod gennych ysgol gyflogi a enwir. Rhaid i chi gynnwys datganiad ategol wedi'i ardystio gan y pennaeth yn eich cais neu, **os nad oes gennych ysgol gyflogi a enwir**, ddweud wrthym ym mha leoliad daearyddol yr ydych yn chwilio am leoliad cyflogedig. Bydd angen i chi hefyd gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel Gweithiwr Cymorth Ysgol cyn dechrau'r rhaglen.

Bydd angen bod cyfrifiadur â chysylltiad â'r rhyngwyd ar gael i chi ei ddefnyddio hefyd.

Beth wy'r broses o wneud cais?

Mae ceisiadau i'r rhaglen cynradd (cyflogedig a rhan amser) ar gyfer Hydref 2020 bellach wedi cau. Bydd ceisiadau TAR uwchradd ar gyfer Hydref 2020 (cyflogedig heb ysgol nodedig) yn cau am 17:00 ddydd Sul, 23 o Awst. Bydd ceisiadau TAR Uwchradd ar gyfer Hydref 2020 (rhan amser a chyflogedig gydag ysgol nodedig) yn cau am 17:00 ar ddydd Gwener, 4ydd Medi 2020. Os hoffech wneud cais am TAR Uwchradd gyda Gwyddoniaeth, Mathemateg neu Gymraeg gan ddechrau ym mis Hydref 2020 ar draws y ddau lwybr yna lawrlwythwch ffurflen gais [yma](#) a'i hanfon trwy e-bost i TAR-Cymru@open.ac.uk

Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig sydd ag ysgol yn eu noddi, RHAID i chi gynnwys eich llythyr cymeradwyo gyda'ch cais. Rhaid defnyddio'r templed llythyr cymeradwyo hefyd, ac mae i'w weld [yma](#). Mae methu â chynnwys eich llythyr cymeradwyo yn golygu na allwn symud ymlaen â'ch cais.

Fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, ac ar y cyd ag ysgolion partner, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Cwblhau ffurflen gais y Brifysgol Agored, a fydd yn cynnwys datganiad personol a geirdaon. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y llwybr cyflogedig hefyd gynnwys ardystiad cyflogwr (os yw'n gymwys). Mae ardystiad gan gyflogwr yn gadarnhad ysgrifenedig bod ysgol yn fodlon cymryd rhan yn y rhaglen a thalu rhan o'ch cyflog (neu eich cyflog i gyd), gan ddibynnu ar y cyfnod neu'r arbenigedd. Gall yr ardystiad ddod gan ysgol wladol sy'n eich cyflogi ar hyn o bryd, neu ysgol rydych wedi trafod â hi. Bydd ardystiad gan gyflogwr yn cryfhau eich cais, ond os nad oes gennych ardystiad o'r fath, mae'n bosibl y gallwn eich cysylltu ag ysgolion gwladol sy'n chwilio am fyfyrwr cyflogedig.
- Cymryd rhan mewn profion doniau a chyfweliadau grŵp ac unigol.
- Sefyll prawf neu brofion ysgrifenedig.
- Llwyddo yn y prawf System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) gyda sgôr o 7 (os ydych yn hanu o wlad y tu allan i'r DU ac nad Saesneg yw eich iaith gyntaf).
- Cwblhau archwiliad iechyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, os ceir amheuan difrifol am eich addasrwydd i ymarfer oherwydd eich cyflwr iechyd, mae'n bosibl y gofynnir i chi gael archwiliad meddygol.

[Dysgwch am ffioedd a chyllid ar gyfer TAR.](#)

I gael rhagor o wybodaeth am y naill lwybr neu'r llall, neu sut a phryd i wneud cais, e-bost i Wales-PGCE@open.ac.uk.

Hyd y cwrs

Byddwch yn cwblhau'r cymhwyster mewn dwy flynedd. Mae *TAR 1* yn dechrau ym mis Hydref bob blwyddyn ac yn gorffen ym mis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Mae *TAR 2* yn dechrau ym mis Mawrth ac yn gorffen ym mis Medi. Mae *TAR 3* yn dechrau ym mis Medi ac yn gorffen ym mis Mehefin y flwyddyn ganlynol. Cewch eich canlyniadau ym mis Gorffennaf. Mae'r wythnosau seibiant yn cydfynd â gwyliau ysgolion yng Nghymru.

Gyrfaoedd

Perthnasedd i yrfaoedd

Ar ôl ennill eich TAR, byddwn yn argymhell eich bod yn cael Statws Athro Cymwysedig (SAC), naill ai fel athro ysgol gynradd neu athro ysgol uwchradd, gan ddibynnu ar yr opsiwn y byddwch yn ei ddewis.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflogadweydd a bydd yn eich paratoi i ymuno â'r proffesiwn. Fel cymhwyster addysgu galwedigaethol, mae wedi'i achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg ac wedi'i fonitro gan Estyn. Mae'r cyfuniad o sgiliau a phrofiad academiaidd ac ymarfer yn ganolog i'r rhaglen, gan sicrhau eich bod yn gyfarwydd ag 'ymarfer fel damcaniaeth a damcaniaeth fel ymarfer'. Bydd eich e-bortffolio yn asesu eich sgiliau a'ch profiad yn erbyn deilliannau dysgu perthnasol a safonau proffesiynol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yrfaoedd addysgu yng Nghymru ar wefan [Darganfod Addysgu](#).

Er bod y TAR yn seiliedig ar brofiad addysgu mewn ysgolion yng Nghymru ac ar gyfer cwricwlwm Cymru, mae'r TAR yn ddilys yn Lloegr hefyd. Os byddwch yn dymuno addysgu yn yr Alban neu

Ogledd Iwerddon, rhaid i chi gofrestru â chorff proffesiynol priodol y wlad dan sylw. Bydd yn asesu ceisiadau fesul achos.

Deilliannau dysgu

Nodau addysgol

Mae'r Dyfarniad yn cynnig cyfleoedd i chi ddwyn ynghyd eich dealltwriaeth bersonol o faterion sy'n ymwneud ag addysg â'ch ymarfer proffesiynol a'r corff o gyhoeddiadau ymchwil cyfredol a pharhaus sy'n berthnasol i addysgu. Byddwch yn meithrin y sgiliau a'r priodoleddau eraill sydd eu hangen i ddatblygu fel athro newydd gymhwyso ac i hybu eich datblygiad proffesiynol a'ch ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil.

Deilliannau dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd gennych wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y gofynion er mwyn bodloni disgrifyddion Statws Athro Cymwysedig (SAC) y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arwain.
- Trafodaethau, cysyniadau a materion cyfredol mewn addysg.
- Ymchwil sy'n ategu ymarfer.
- Strategaethau, polisiau a chanllawiau addysg perthnasol, a'u goblygiadau i athrawon o ran gwella dysgu.
- Sut mae addysgu a dysgu'n digwydd mewn lleoliadau cymhleth a chyd-destunol sy'n effeithio ar ymarfer.
- Sut i nodi materion a chwestiynau mewn perthynas â meysydd o ddiddordeb addysgol a dylunio cynlluniau astudio i ymchwilio iddynt.
- Sut i werthuso llenyddiaeth uwch a mathau eraill o dystiolaeth yn feirniadol.
- Sut i adfyfyrio'n feirniadol ar eich arferion eich hun yng ngoleuni tystiolaeth o faes ymchwil.

Sgiliau gwybyddol

- Y gallu i ddefnyddio termau, cysyniadau a damcaniaethau allweddol i lywio a gwerthuso ymarfer.
- Y gallu i gymhwyso sgiliau meddwl beirniadol wrth adolygu llenyddiaeth.
- Y gallu i gymhwyso sgiliau meddwl beirniadol mewn perthynas ag ymarfer.
- Y gallu i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol drwy ddadansoddi ac adfyfyrio.
- Y gallu i ymestyn ac addasu dealltwriaeth gysyniadol gyfredol mewn perthynas â
- llenyddiaeth ac ymarfer penodol.
- Y gallu i ddadansoddi a gwerthuso llenyddiaeth ac ymarfer yn feirniadol mewn perthynas â maes ymchwilio penodol.
- Y gallu i adfyfyrio ar ymarfer a chyfraniad eich astudiaethau TAR at eich datblygiad proffesiynol parhaus.
- Y gallu i adfyfyrio ar eich dysgu eich hun a'i reoleiddio.

Sgiliau ymarferol a/neu broffesiynol

- Arddangos y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i fodloni disgrifyddion Statws Athro Cymwysedig (SAC) y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arwain.
- Gwerthuso eich ymarfer eich hun yn feirniadol er mwyn gwella ymarfer.

- Dangos ymagwedd adfyfyriol at ymchwil a mathau eraill o lenyddiaeth er mwyn llywio a gwella eich ymarfer.
- Arddangos y sgiliau i nodi a dewis ymchwil berthnasol a chyhoeddiadau addysgol eraill.
- Monitro eich dysgu eich hun.
- Strwythuro adroddiad.
- Cyflwyno adroddiad i safon broffesiynol.

Sgiliau allweddol

- Defnyddio cymwysiadau TGCh at ddibenion adalw gwybodaeth a chyfathrebu.
- Cyfleu syniadau'n gryno ac yn effeithiol ar lafar ac mewn gwaith ysgrifenedig, sy'n dangos mynegiant clir a strwythur cydlynol.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am gwblhau rhaglen ddysgu estynedig ac amrywiol y mae angen ei chymhwyso'n annibynnol ac sy'n gofyn am ddyfalbarhad.
- Llunio aseiniadau sy'n ymwneud â dadansoddi a chyflwyno deunyddiau a materion.
- Datblygu a defnyddio'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i ymchwilio'n effeithiol i faes er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o agwedd ar addysg.
- Datblygu a defnyddio'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gyflwyno prosiect yn effeithiol o fewn confensiynau ysgrifennu academiaidd ar gyfer graddau meistr.

Dulliau addysgu, dysgu ac asesu

Addysgir y cwrs drwy gyfres o llinynnau sy'n canolbwyntio ar ymarfer, sy'n rhan o fodiwlau TAR 1, 2 a 3. Bydd pob modiwl yn cynnwys llinyn yn canolbwyntio ar y cwricwlwm, dysgu plant, cynllunio, addysgu, asesu a rôl broffesiynol. Bydd y llinynnau ar-lein ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr adfyfyrio ar y rhyngberthynas rhwng damcaniaeth ac ymarfer.

Mae'r cwrs yn seiliedig ar gynnydd, a dychwelir at yr un llinynnau ym mhob modiwl a'u datblygu'n raddol. Byddwch yn dysgu damcaniaethau a chysyniadau sy'n briodol i'ch lefel astudio. Ar ôl cwblhau eich ymarfer a'ch asesiadau'n llwyddiannus, gallwch symud ymlaen i'r modiwl nesaf.

Caiff pob modiwl ei asesu drwy ymatebion i dasgau ar ffurf traethodau adfyfyriol ac e-bortffolio o dystiolaeth o gynnydd eich ymarfer yn erbyn y safonau proffesiynol, arsylwadau gwersi, cofnodion trafodaethau â mentoriaid ac asesiadau ffurfiol o'r addysgu gan diwtor ymarfer.